

Atodiad 8:

Cynllun Codi Tâl Adnoddau Dŵr

Cynnwys

Negeseuon allweddol.....	3
Ein cynigion codi tâl.....	3
Fframwaith ar gyfer adnoddau dŵr.....	3
Cyngor cyn gwneud cais.....	4
Tâl gweinyddu hysbysebu.....	5
Ffi ymgeisio.....	5
Ceisiadau am drwydded bwrpasol newydd.....	5
Ceisiadau am ganiatâd ymchwilio i ddŵr daear (Caniatâd A32 Deddf Adnoddau Dŵr)	6
Ceisiadau i amrywio trwydded.....	6
Amrywiad gweinyddol.....	6
Amrywiadau syml.....	6
Amrywiadau llawn.....	7
Adnewyddiadau.....	7
Cael gwared ar groniadau.....	7
Cynigion ar gyfer hepgoriadau.....	7
Newid manylion cyswllt (Amrywiad gweinyddol):.....	7
Trosglwyddo deiliad trwydded (Amrywiad gweinyddol):.....	7
Amrywio trwydded i leihau faint o ddŵr yr awdurdodir ei dynnu:.....	7
Ceisiadau i ddirymu trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr (Amrywiad gweinyddol):.....	8
Gostyngiadau gweithgareddau lluosog.....	8

Ceisiadau heb ddigon o fanylion i symud ymlaen8

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl.....8

Wedi'i eithrio o'r cynigion codi tâl cyfredol9

Tablau taliadau ar gyfer ceisiadau am drwydded adnoddau dŵr9

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9.....11

Negeseuon allweddol

Nid yw'r taliadau am drwyddedau sy'n seiliedig ar geisiadau ar gyfer Adnoddau Dŵr wedi cynyddu mewn nifer o feysydd ers dros 20 mlynedd. O ganlyniad, mae taliadau presennol wedi'u diwygio a chynigiwyd taliadau newydd i adlewyrchu ein costau presennol.

Rydym yn cynnig cyflwyno taliadau ymgeisio newydd ar gyfer y canlynol:

- Caniatadau ymchwilio i ddŵr daear Adran 32
- Dosraniadau trwydded
- Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd

Rydym yn cynnig cyflwyno categori newydd o amrywiad syml, sef cost ganolraddol rhwng amrywiad gweinyddol ac amrywiad llawn ar gyfer rhai mathau o drwyddedau.

Byddwn yn parhau i hepgor rhai o'n taliadau ymgeisio, megis costau amrywiadau gweinyddol ar gyfer dirymu trwyddedau ac ar gyfer newidiadau syml megis diweddarau manylion cyswllt. Ariennir y costau hyn gan ein taliadau cynhaliath adnoddau dŵr blynyddol.

Rydym yn bwriadu cadw'r tâl gweinyddol hysbysebu ar ei lefel bresennol, ond bydd cwsmeriaid yn talu am yr hysbyseb gyfan yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Ein cynigion codi tâl

Fframwaith ar gyfer adnoddau dŵr

Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau adnoddau dŵr o dan [Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk/ukpga/1991/12). Mae'r ddeddf hon ar y cyd ag adran 6(2A) [Deddf yr Amgylchedd 1995 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk/ukpga/1995/12) yn ein galluogi i adennill ein costau ar gyfer rheoleiddio a rheoli adnoddau dŵr.

Mae angen trwydded tynnu dŵr cyn y gellir tynnu mwy nag 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd fesul ffynhonnell (oni bai fod y tynnwr dŵr wedi'i eithrio rhag trwyddedu). Mae angen trwydded cronni dŵr lle mae'r llif wedi'i lesteirio neu ei rwystro (wedi cronni) gan waith adeiladu, addasu, atgyweirio neu gael gwared ar gronfa (oni bai ei bod wedi'i heithrio).

Bydd angen i chi dalu tâl ymgeisio pan fyddwch yn gwneud cais am drwydded newydd neu i amrywio trwydded bresennol. Mae'r tâl yn cynnwys y gwaith rydym yn ei wneud wrth benderfynu ar y cais am drwydded. Bydd tâl ymgeisio yn berthnasol i'r canlynol:

- trwydded tynnu dŵr llawn – ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dynnu dŵr dros 20 metr ciwbig y dydd

- trosglwyddo trwydded tynnu dŵr – i symud dros 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd o un ffynhonnell (neu o fewn yr un ffynhonnell ar gyfer rhai gweithgareddau) i un arall heb ddefnydd yn y cyfamser
- trwydded tynnu dŵr dros dro – i dynnu mwy nag 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd dros gyfnod o lai na 28 niwrnod yn olynol
- trwydded cronni dŵr – i adeiladu, newid, atgyweirio, neu symud strwythur cronni fel llifddor, cored, neu argae
- unrhyw drwydded tynnu a/neu gronni ar gyfer cynhyrchu trydan, neu unrhyw fath arall o bŵer drwy system neu gyfarpar cynhyrchu
- adnewyddu trwydded tynnu dŵr cyfnod penodol
- adnewyddu amrywiad cyfnod penodol i drwydded tynnu dŵr bresennol.

Cyngor cyn gwneud cais

Mae CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu cwsmeriaid i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded neu ganiatâd sydd ei angen
- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio
- pa ganllawiau y mae'n rhaid eu dilyn
- canllawiau i'ch helpu i gyfrifo'r tâl ymgeisio.

Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgresiwn CNC.

Ar gyfer ceisiadau am drwydded adnoddau dŵr, rydym hefyd yn cynnig cyngor am ddim ar y canlynol:

- argaeledd dŵr
- llif annibynnol neu ofynion lefel
- meintiau sgrin pysgod neu lyswennod sydd eu hangen
- cadarnhad o ofynion llwybr pysgod neu lyswennod (gan gynnwys pennu math ond heb gynnwys adolygiad o ddyluniadau).

Tâl gweinyddu hysbysebu

Pan fydd angen i ni hysbysebu cais, mae'r ymgeisydd ar hyn o bryd yn talu'r tâl gweinyddol ynghyd â hanner cost yr hysbyseb ddwyieithog, gyda CNC yn talu cost yr hysbyseb yn Gymraeg.

Rydym yn cynnig cadw'r tâl gweinyddu hysbysebu ar £100.

Cynigiwn fod cwsmeriaid yn talu am yr hysbyseb gyfan yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ffi ymgeisio

Rydym yn diwygio ein taliadau ymgeisio i'n galluogi i adennill costau ar gyfer y gwasanaeth a ddarparwn. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar rai o'n hepgoriadau presennol a chyflwyno taliadau newydd i adlewyrchu ein costau presennol.

Bydd y costau ymgeisio yn cynnwys y canlynol:

- Tâl sylfaenol sy'n cynnwys y gwaith y mae angen i CNC ei wneud ar gyfer rhai ceisiadau i fodloni Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, neu mewn perthynas â rhai ardaloedd cadwraeth dynodedig, megis Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
- Ffactor tâl ychwanegol ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud gwaith ychwanegol ar gyfer Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd, hynny yw, lleoliadau tynnu neu gronni dŵr a allai effeithio ar safleoedd a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Rydym yn cynnig cyflwyno tâl ychwanegol newydd o £917 ar gyfer Aseidiadau Rheoliadau Cynefinoedd lle bo'n berthnasol.

Ceisiadau am drwydded bwrpasol newydd

Rydym yn cynnig codi'r un tâl am y ceisiadau canlynol, gan eu bod yn cymryd yr un faint o amser ac ymdrech i benderfynu arnynt:

- tynnu dŵr wyneb llawn newydd, gan gynnwys cynlluniau pŵer trydan dŵr
- tynnu dŵr daear llawn newydd
- cronriad newydd gan gynnwys pŵer trydan dŵr
- trwydded dros dro
- trwydded trosglwyddo newydd.

Rydym yn cynnig codi tâl o £6,327 am geisiadau am drwydded bwrpasol newydd

Ceisiadau am ganiatâd ymchwilio i ddŵr daear (Caniatâd A32 Deddf Adnoddau Dŵr)

Rydym yn cynnig cyflwyno tâl ar gyfer ceisiadau ar gyfer caniatadau ymchwilio i ddŵr daear drwy Erthygl 12A [Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Swyddogaethau\) 2013](#).

Rydym yn cynnig cyflwyno tâl newydd o £1,903 ar gyfer ceisiadau am ganiatadau ymchwilio i ddŵr daear.

Ceisiadau i amrywio trwydded

Amrywiad gweinyddol

Nid ydym yn codi tâl am amrywiadau gweinyddol ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i hepgor y taliadau a ganlyn:

Amrywiad gweinyddol 1

- Newid manylion cyswllt
- Dirymu trwydded tynnu dŵr
- Dirymu trwydded cronni dŵr.

Amrywiad gweinyddol 2

- Trosglwyddo trwydded i ddeiliad trwydded newydd.

Ceir rhagor o fanylion yn yr adran ar hepgoriadau.

Amrywiadau syml

Rydym yn cynnig cyflwyno categori tâl newydd ar gyfer amrywiad 'syml'. Diffinnir hyn fel gweithgaredd sy'n gofyn am lefel ymdrech rhwng amrywiad gweinyddol ac amrywiad llawn. Mae'r rhain yn gymwysiadau a all fod angen rhywfaint o fewnbwn arbenigol arnynt.

Bydd y categori amrywiad syml hwn yn cynnwys ceisiadau am adnewyddiadau ar yr un telerau a chyflwyno tâl newydd am geisiadau ar gyfer dosraniadau o drwydded.

Rydym yn cynnig codi tâl o £1,357 am geisiadau am amrywiad syml.

Rydym yn cynnig cyflwyno tâl newydd o £1,357 ar gyfer ceisiadau am ddosraniadau i rannu'r meintiau trwyddedig a dynnir rhwng dau unigolyn neu fwy.

Amrywiadau llawn

Mae amrywiad llawn i drwydded tynnu neu Gronni dŵr yn gofyn am lefel uwch o fewnbwn technegol.

Rydym yn cynnig codi tâl o £4,810 am geisiadau am amrywiad llawn.

Adnewyddiadau

Rydym yn cynnal gwaith adolygu ac yn anfon llythyr cyngori cyn y bydd angen adnewyddu trwydded. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad mewnol sylfaenol i ystyried p'un a gellir ailgyhoeddi trwydded â chyfyngiad amser neu drwydded ag amodau amser cyfyngedig ar yr un telerau neu os bydd angen amodau trwydded gwahanol.

Rydym yn cynnig codi tâl am adnewyddiadau ar yr un telerau ag amrywiad syml, tâl o £1,357. Rydym yn cynnig codi tâl am adnewyddu telerau gwahanol fel amrywiad syml neu amrywiad llawn, tâl o £1,357 neu £4,810 yn y drefn honno, yn dibynnu ar gymhlethdod.

Cael gwared ar Groniadau

Os yw'r croniad wedi'i adeiladu a bod trwydded ar waith, rhaid i chi wneud cais i amrywio'r drwydded i gael gwared ar y croniad.

Os yw'r croniad wedi'i adeiladu, ond nad oes trwydded yn bodoli eisoes, rhaid i chi wneud cais am drwydded i symud y croniad.

Yn y ddau achos, unwaith y bydd y croniad wedi'i waredu, rhaid i chi wneud cais i ddirymu'r drwydded.

Rydym yn cynnig codi tâl o £4,810 i naill ai amrywio neu wneud cais am drwydded i gael gwared ar Groniad. Bydd dirymiad dilynol y drwydded honno yn parhau i fod yn rhad ac am ddim.

Cynigion ar gyfer hepgoriadau

Newid manylion cyswllt (Amrywiad gweinyddol):

Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i hepgor taliadau fel bod deiliaid trwydded yn rhoi gwybod i ni pan fyddant yn newid eu manylion cyswllt.

Trosglwyddo deiliad trwydded (Amrywiad gweinyddol):

Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i hepgor y tâl hwn gan fod y ceisiadau hyn yn debyg o ran eu natur i newid mewn manylion cyswllt. Derbynnir llawer o'r ceisiadau hyn gan ddeiliaid trwydded unigol, weithiau ar ôl marwolaeth deiliad trwydded.

Amrywio trwydded i leihau faint o ddŵr yr awdurdodir ei dynnu:

Gall deiliaid trwydded wneud cais am amrywiad i leihau faint o ddŵr y mae ganddynt drwydded i'w dynnu, gall CNC ofyn iddynt wneud hynny'n wirfoddol neu'n ofynnol. Rydym yn cynnig ein bod yn parhau i hepgor y taliadau hyn gan eu bod o fudd i'r amgylchedd dŵr.

Ceisiadau i ddirymu trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr (Amrywiad gweinyddol):

Rydym yn cynnig parhau i hepgor y tâl am wneud cais i ddirymu trwydded tynnu dŵr neu drwydded cronni dŵr.

Gostyngiadau gweithgareddau lluosog

Rydym yn cynnig gostyngiadau pan fo cais yn cael ei wneud am fwy nag un gweithgaredd gan un ymgeisydd, pan ystyrir yn rhesymol bod y gweithgareddau arfaethedig yn rhan o'r un gweithrediad. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu'r amser a arbedwyd yn ystod y cyfnod penderfynu.

Rydym yn cynnig ein bod yn codi'r tâl ymgeisio llawn am y tâl uchaf, yn ogystal â:

- **Gostyngiad o 90% ar gyfer pob gweithgaredd ychwanegol sy'n rhan o'r un gweithrediad ac o'r un ffynhonnell gyflenwi**
- **gostyngiad o 50% ar gyfer pob gweithgaredd ychwanegol sy'n rhan o'r un gweithrediad ac o ffynhonnell gyflenwi wahanol.**

Ceisiadau heb ddigon o fanylion i symud ymlaen

Pan fydd angen i ni ddychwelyd cais sydd heb ddigon o fanylion i allu symud ymlaen, rydym yn cynnig cadw cyfran o'r tâl ymgeisio i dalu am y gwaith a wnawn yn y cam 'gwneud yn briodol'. Dychwelir ceisiadau dim ond ar ôl i'r ymgeisydd gael cyfle i gyflenwi'r wybodaeth sydd ar goll.

Rydym yn cynnig tâl yn seiliedig ar 10% o gost pob math o gais.

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl

Os caiff cais ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd cyn symud ymlaen o'r cam a wnaed yn briodol, **rydym yn cynnig cadw 10% o dâl y cais.**

Os caiff cais ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd ar ôl cyrraedd y cam a wnaed yn briodol, **rydym yn cynnig cadw 100% o dâl y cais.**

Wedi'i eithrio o'r cynigion codi tâl cyfredol

- Croniadau dŵr â risg isel

Byddwn yn parhau i beidio â gofyn am gais am drwydded ar gyfer cronniadau risg isel lle nad yw'r gweithgareddau hyn yn cael fawr o effaith ar yr amgylchedd a defnyddwyr dŵr eraill.

Tablau taliadau ar gyfer ceisiadau am drwydded adnoddau dŵr

Rydym yn cynnig codi'r taliadau canlynol, yn seiliedig ar adennill ein costau i brosesu ceisiadau adnoddau dŵr:

Cynigion ar gyfer ceisiadau am drwydded bwrpasol newydd					
Trwydded tynnu dŵr lawn	Trwydded cronni dŵr	Trwydded tynnu neu Gronni pŵer trydan dŵr	Trosglwyddo trwydded	Trwydded dros dro	Caniatâd ymchwilio i ddŵr daear
£6,327	£6,327	£6,327	£6,327	£6,327	£1,903

Cynigion ar gyfer ceisiadau i amrywio neu ddirymu trwydded				
Newid manylion cyswllt	Trosglwyddo deiliad y drwydded	Ceisiadau i leihau faint o ddŵr yr awdurdodir ei dynnu	Dirymu trwydded tynnu dŵr	Dirymu trwydded cronni dŵr (gweler isod ar gyfer cael gwared ar groniadau)
Dim tâl uniongyrchol	Dim tâl uniongyrchol	Dim tâl uniongyrchol	Dim tâl uniongyrchol	Dim tâl uniongyrchol

Cynigion ar gyfer ceisiadau i amrywio trwydded

Amrywiad o drwydded tynnu dŵr	Amrywiad o drwydded cronni dŵr	Amrywiad o drwydded tynnu neu Gronni trydan dŵr	Amrywiad o drwydded drosglwyddo
Syml £1,357 / Llawn £4,810	Syml £1,357 / Llawn £4,810	Syml £1,357 / Llawn £4,810	Syml £1,357 / Llawn £4,810

Cynigion ar gyfer ceisiadau i amrywio trwydded

Dosraniadau	Adnewyddu ar yr un telerau	Adnewyddu ar delerau gwahanol
£1,357	£1,357	Syml £1,357 neu Llawn £4,810

Cynigion ar gyfer ceisiadau i ddileu cronniad a dirymu trwydded cronni

Mae trwydded ar waith, ond nid oes strwythur wedi'i adeiladu	Mae trwydded ar waith ac mae'r strwythur wedi'i adeiladu		Nid oes trwydded ar waith ac mae'r strwythur wedi'i adeiladu	
Dirymu'r drwydded honno	Cam 1 – Cais i amrywio'r drwydded	Cam 2 – Dirymu'r drwydded honno	Cam 1 – Cais i wneud cais am y drwydded	Cam 2 — Dirymu'r drwydded honno
Dim tâl uniongyrchol	£4,810	Dim tâl uniongyrchol	£4,810	Dim tâl uniongyrchol

**Cynigion ar gyfer ceisiadau sy'n
gofyn am Aseiad Rheoliadau
Cynefinoedd**

Tâl ychwanegol Aseiad Rheoliadau
Cynefinoedd

£917

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9